**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/DB/0218/26

Buffy Williams MS
Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Mike Hedges MS
Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Chwefror 2026

Annwyl Buffy a Mike,

Byddwch am fod yn ymwybodol fy mod heddiw wedi gosod 'Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026'. Bydd yn dirymu ac yn disodli 'Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010'.

Diben y Gorchymyn yw disgrifio'r amgylchiadau lle nad yw'n ofynnol cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Pan fo darparwr wedi'i eithrio rhag gorfod cofrestru, nid oes rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 na rhoi sylw i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ac nid yw'n cael ei archwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Hoffwn gynnig cyfle i'r Pwyllgorau gael briff technegol gan swyddogion ar weithrediad y Gorchymyn hwn. Pwrpas briff o'r fath fyddai helpu'r Aelodau i ddeall:

- sut y bwriedir i'r Gorchymyn weithredu yn ymarferol,
- effaith arfaethedig yr offeryn, a
- yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a sut y rhoddwyd sylw i'r ymatebion.

Os yw'r Pwyllgorau yn dymuno manteisio ar y cynnig hwn, gellir gwneud trefniadau drwy swyddogion Uned y Rhaglen Ddeddfwriaethol a'i Llywodraethiant (LPGU), a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'ch tîmau clercio i ddod o hyd i ddyddiad addas.

Mae croeso ichi gysylltu ag LPGU os oes angen rhagor o wybodaeth neu eglurder ar y Pwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care